# SL(6)528 – Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 (“y Rheoliadau”) yn gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sy’n gymwys i bwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol (neu eu is-bwyllgorau) at ddibenion arfer swyddogaethau penodol sy’n ymwneud â thrwyddedau triniaethau arbennig[1] o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (“Deddf 2017”).

Mae gan awdurdod lleol swyddogaethau amrywiol o dan Ran 4 o Ddeddf 2017 sy’n ymwneud â rhoi, amrywio, adnewyddu neu ddirymu trwyddedau triniaeth arbennig. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ddyroddi hysbysiad rhybuddio pan fo’r awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau penodol, er enghraifft gwrthod cais am drwydded triniaeth arbennig. Mae’n ofynnol i awdurdod lleol ystyried sylwadau a wneir ar ôl iddo gyhoeddi hysbysiad rhybuddio o’r fath.

Mae paragraff 21(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2017 yn dirprwyo swyddogaethau penodedig awdurdod lleol, gan gynnwys ystyried sylwadau o’r fath, i bwyllgor trwyddedu’r awdurdod a sefydlwyd o dan adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, caiff y pwyllgorau perthnasol reoleiddio eu gweithdrefn eu hunain.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 8 yn rhoi’r pŵer i bwyllgor perthnasol oedi neu ohirio gwrandawiad. Mae paragraff (1) yn darparu y caiff pwyllgor “ar unrhyw adeg” oedi neu ohirio gwrandawiad. Mae paragraff (2) yn darparu y caiff y pwyllgor gymryd y camau gweithredu a bennir ym

[1] Y triniaethau arbennig a restrir yn adran 57 o Ddeddf 2017 yw aciwbigo, tyllu’r corff, electrolysis a thatŵio.

mharagraff (1) os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol am y rhesymau a nodir yn is-baragraffau (a) a (b).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a gaiff pwyllgor wneud hynny arfer y pŵer ym mharagraff (1) pan fo paragraff (2) yn gymwys yn unig, neu a ganiateir i'r pŵer i oedi neu i ohirio gael ei arfer hefyd at ddibenion eraill.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Derbyniodd Deddf 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Disgwylir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na 7 mlynedd wedi mynd heibio erbyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig gael eu gweithredu.

Yn 2017, roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r "risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â" thriniaethau arbennig, a'r "cymhlethdodau a allai godi" mewn perthynas â thriniaethau arbennig.[2]

Yn ogystal, cyfeiriodd y Memorandwm Esboniadol i'r Bil at y ffaith bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn "annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol".[3] Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r costau i'r GIG o dan y drefn bresennol: "Mantais bennaf y system drwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn."[4]

Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn dweud bod y broses o orfodi'r rheolau presennol wedi bod yn anghyson. Mae'n nodi nad yw is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a gafodd eu llunio gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghysondebau hanesyddol yn y maes hwn, wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ychwanegu nad yw awdurdodau lleol yn debygol o'u mabwysiadu, "gan eu bod wedi bod yn aros, ers i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017, am greu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig".[5]

O ystyried y pwyntiau uchod, nid yw'n glir pam mae cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig a nodir yn Neddf 2017 gael eu gweithredu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

[2]Gweler paragraffau 116 a 117 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[3]Gweler paragraff 616 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[4]Gweler paragraff 614 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[5] Gweler paragraff 4.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.